

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal

Chwefror 2022



# 1. Cefndir

## Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU<sup>1</sup> (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ei noddi.
2. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2021 a chafodd ei ddarllenid cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd. Mae'r Bil yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil y DU perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
4. Ar 1 Medi 2021, gosododd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>2</sup> (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.
5. Mae paragraffau 7 i 67 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru, ar y pryd, o'r darpariaethau yn y Bil y credai fod angen cydsyniad y Senedd arnynt, sef cymal 75 (Darpariaethau tacluso ac ati ynghylch cyfrifon rhai cyrff y GIG), cymal 78 (Cleifion ysbyty ag anghenion gofal a chymorth: diddymiadau ac ati), cymal 85 (Systemau gwybodaeth meddyginiaethau), cymalau 86 i 92 (Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i drosglwyddo neu ddirprwyo swyddogaethau), cymal 120 (Trefniadau gofal iechyd rhyngwladol), cymal 123 (Rheoleiddio gofal iechyd a darpariaethau cysylltiedig), cymal 125 ac Atodlen 16 (Hysbysebu bwyd a diod llai iachus), cymal 127 (Gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr: pŵer i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir), a chymal 130 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol) . Roedd Llywodraeth y DU yn anghytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 75, 123, 125 a 130.

---

<sup>1</sup> Y Bil Iechyd a Gofal, fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Cyffredin 140 2021-22)

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Iechyd a Gofal, Medi 2021

---

- 6.** Mae paragraffau 68 i 71 o'r Memorandwm yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, ac nad oedd y Gweinidog mewn sefyllfa i argymhell i'r Senedd y dylid rhoi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.
- 7.** Yn y Memorandwm, nododd y Gweinidog hefyd y gallai fod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, oherwydd materion yn ymwneud â chymalau yn y Bil sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio deddfwriaeth y Senedd o ganlyniad, a chymalau yn y Bil a allai effeithio'n negyddol ar gyrff y GIG yng Nghymru.
- 8.** Dywedodd y Gweinidog, yn y Memorandwm, wrth y Senedd fod anghytuno o hyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar rai o'r materion hyn a byddai gwaith pellach gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y pryderon hyn yn parhau yn ystod hynt y Bil drwy Senedd San Steffan ac y byddai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol yn cael ei gyflwyno pe bai angen.<sup>3</sup>

### **Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf**

---

- 9.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 3 Rhagfyr 2021.<sup>4</sup>
- 10.** Mae paragraffau 15 i 94 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'n fanwl ein hystyriaeth o'r Memorandwm.
- 11.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng safbwyntiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am y cymalau (ac Atodlenni) o'r Bil y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
- 12.** Roedd yn pwysleisio hefyd fod Llywodraeth Cymru yn argymhell, bryd hynny, y dylai'r Senedd wrthod cydsyniad.
- 13.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn gwneud arsylwadau a chasgliadau penodol ynghylch cymalau 75, 85, 86 i 92, 120, 123, 125 (ac Atodlen 16), a 130. Roeddem hefyd yn trafod, yn fanwl, y darpariaethau yn y Bil a fyddai'n galluogi rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor i ddiwygio Deddfau a Mesurau'r Senedd a hefyd *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm, paragraff 71

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal, Rhagfyr 2021

---

**14.** At ei gilydd, roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar casgliad ffurfiol ac wyth argymhelliad.

**15.** Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 2 Chwefror 2022.<sup>5</sup>

## **Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru**

### **Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3**

---

**16.** Ar 6 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol<sup>6</sup> (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd mewn perthynas â gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 23 Tachwedd 2021 yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae rhifau'r Cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.<sup>7</sup>

**17.** Ym mharagraff 3 o Femorandwm Rhif 2 dywedodd y Gweinidog "Nid oedd yn bosibl gosod y Memorandwm hwn o fewn y pythefnos arferol a ragnodir yn [Rheol Sefydlog] 29, oherwydd cymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd a'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ar faterion a oedd heb eu datrys".

**18.** Nododd y Gweinidog hefyd yr "erys rhai materion heb eu datrys sy'n dal i fod yn destun trafodaethau gyda Llywodraeth y DU".<sup>8</sup>

**19.** Ar 28 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog gerbron y Senedd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol<sup>9</sup> pellach (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r gwelliannau a drafodwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae rhifau'r Cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 3 hefyd yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.

---

<sup>5</sup> [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022](#)

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), y Bil Iechyd a Gofal](#), Rhagfyr 2021

<sup>7</sup> [Y Bil Iechyd a Gofal, fel y'i cyflwynwyd](#) (Bil Tŷ'r Arglwyddi 71)

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 3. Gweler hefyd baragraffau 55 i 57 a 60 i 62.

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\), y Bil Iechyd a Gofal](#), Ionawr 2022

---

---

## **Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf y mae angen cydsyniad ar ei gyfer**

---

**20.** Ym Memorandwm Rhif 2, hysbysodd y Gweinidog y Senedd fod Llywodraeth Cymru, ers cyhoeddi'r Memorandwm ym mis Awst 2021, wedi sicrhau gwelliannau gan Lywodraeth y DU "sy'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'n pryderon".<sup>10</sup>

**21.** Ym mharagraff 10 o Memorandwm Rhif 2, nododd y Gweinidog hefyd:

*"Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi diwygio rhannau eraill o'r Bil ar ein cais, er mwyn newid darpariaethau presennol y Bil ar ran Cymru neu ymestyn darpariaethau newydd i Gymru."*

**22.** Mae paragraffau 13 i 54 ym Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm, a barn Llywodraeth Cymru ar bob un o'r newidiadau hyn.

**23.** Mae paragraffau 7 i 50 ym Memorandwm Rhif 3 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 2, ac unwaith eto mae'n cynnwys safbwyntiau cysylltiedig Llywodraeth Cymru.

### **Cymal 87 (cymal 85 gynt)**

**24.** Mae cymal 87 (cymal 85 gynt) yn ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau. Roedd gan y Gweinidog bryderon ynghylch argaeledd data i Weinidogion Cymru at ddibenion o fewn y cymhwysedd datganoledig megis gwneud penderfyniadau clinigol.

**25.** Mae paragraffau 22 i 25 ym Memorandwm Rhif 2, a pharagraffau 14 a 15 ym Memorandwm Rhif 3, yn darparu manylion ynghylch gwelliannau i gymal 87 a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.<sup>11</sup>

**26.** I grynhoi, nododd Memorandwm Rhif 2:

- aed i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru gan welliannau y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, yn benodol:
  - i. gwelliant 116 sy'n "cyfyngu ar gwmpas y dibenion y gellir gwneud rheoliadau systemau gwybodaeth meddyginiaethau ar eu cyfer o dan gymal 87",<sup>12</sup>

---

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 9

<sup>11</sup> Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 22

---

- ii. gwelliant 118 sy'n "ei gwneud yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan [gymal 87] ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth gan Weinidogion Cymru neu berson a ddynodir ganddynt ... yn ddarostyngedig i eithriadau penodedig yn yr is-ddeddfwriaeth honno",<sup>13</sup> a
- iii. gwelliannau 117 a 121 sy'n "ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw reoliadau neu gyfarwyddydau sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth am feddyginiaethau sy'n ymwneud â Chymru";<sup>14</sup>
  - gall y Gweinidog yn awr gefnogi'r cymal hwn o'r Bil.<sup>15</sup>

**27.** Mae paragraffau 14 a 15 ym Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod cymal 87 yn un o dri maes yn y Bil lle mae'n ofynnol ar hyn o bryd i Lywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau. Ym mharagraff 15 mae'r Gweinidog yn datgan:

*"Nid yw Llywodraeth y DU wedi drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau eto. Rydym wedi dweud wrth Lywodraeth y DU fod angen datblygu'r Memorandwm hwnnw cyn gynted â phosibl gyda golwg ar sicrhau ei fod yn ei lecyn i'r darpariaethau ddod i rym."*

### **Cymalau 88 i 94 (cymalau 86 i 92 gynt)**

**28.** Mae cymalau 88 i 94 o'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i drosglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff hyd braich perthnasol ac i ddirprwyo rhai o swyddogaethau iechyd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r cyrff hynny.

**29.** Mae paragraffau 13 i 15 ym Memorandwm Rhif 2, a pharagraffau 14, 16, a 19 i 28 ym Memorandwm Rhif 3, yn rhoi manylion am ddiwygiadau i gymalau 88 i 94 a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.<sup>16</sup>

**30.** Nododd Memorandwm Rhif 2:

- arweiniodd trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol at Lywodraeth y DU yn cytuno ar welliannau a oedd yn mynd i'r afael â holl feysydd pryder y Gweinidog ac yr oedd y Gweinidog yn eu cefnogi'n llwyr;

---

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 23

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 24

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 25

<sup>16</sup> Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

---

- ni chyflwynwyd gwelliant i'r cymalau sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w ystyried yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ochr yn ochr â'r gwelliannau eraill a gyflwynwyd, gan na allai Llywodraeth y DU sicrhau cytundeb llawn gan yr holl lywodraethau datganoledig i ddiwygiadau arfaethedig pellach i'r darpariaethau;
- hyd nes y cyrhaeddir "sefyllfa dderbyniol i Gymru", ni fyddai'r Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.<sup>17</sup>

**31.** Mae paragraffau 14 ac 16 ym Memorandwm Rhif 3 yn nodi mai cymalau 88 i 94 yw'r ail o dri maes yn y Bil lle mae'n ofynnol ar hyn o bryd i Lywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau. Ym mharagraff 16 mae'r Gweinidog yn datgan na fydd angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch cyrff hyd braich mwyach os cytunir ar welliant (gwelliant 231C) sy'n rhoi rôl gydsynio i Weinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymalau 89 neu 90.<sup>18</sup>

**32.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi'r canlynol hefyd:

- bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau sy'n dileu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru o'r rhestr o "bersonau priodol" yng nghymal 92 "gan fynd i'r afael yn llawn â phryderon Llywodraeth Cymru";<sup>19</sup>
- bod pryderon y Gweinidog ynghylch y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 91 i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i gymalau 88 neu 90 bellach wedi cael sylw (manyllion o dan 'Cymalau 149, 144 a 91' isod);<sup>20</sup>
- y gall y Gweinidog yn awr gefnogi'r cymalau hyn o'r Bil.<sup>21</sup>

### **Cymalau 91, 144 a 149 (cymalau 89, 125 a 130 gynt)**

**33.** Mae cymalau 91, 144 a 149 yn rhoi pwerau Harri'r Wythfed i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ganlyniadol i'r Bil. Caiff rheoliadau o'r fath ddi-ddymu, dirymu neu

---

<sup>17</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 13 i 15

<sup>18</sup> Gweler hefyd Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 22 a 23

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 25

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 26 a 27

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 28

---

ddiwygio deddfwriaeth y Senedd (Deddf neu Fesur y Senedd, neu is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru). Gellir gwneud hyn heb droi at y Senedd neu Weinidogion Cymru.

**34.** Mae paragraffau 16 i 20 ym Memorandwm Rhif 2, a pharagraffau 29 i 37 ym Memorandwm Rhif 3, yn darparu manylion ynghylch trafodaethau rhynglywodraethol ar gymalau 91, 144 a 149, a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.<sup>22</sup>

**35.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn mai cymalau safonol yw'r rhain a bod Gweinidogion Cymru yn yr un modd yn arfer y cyfryw bwerau yn Neddfau'r Senedd i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y DU. Mae Memorandwm Rhif 2 hefyd yn nodi bod swyddogion Llywodraeth y DU wedi darparu enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn, ac er bod Edward Argar AS, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, wedi rhoi ymrwymiad ysgrifenedig i wneud datganiad gerbron y Blwch Dogfennau ar sut y gellid defnyddio'r pŵer yng nghymal 149, nid oedd datganiad o'r fath wedi'i wneud eto.<sup>23</sup>

**36.** Ym mharagraff 20 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Unwaith y bydd y datganiad hwnnw wedi'i wneud, byddaf yn penderfynu a yw'r risg a gyflwynir gan y darpariaethau yn dderbyniol o ystyried yr holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU."*

**37.** Mae paragraffau 31 i 36 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf; yn benodol, mae paragraff 31 yn nodi y byddai datganiad gerbron y Blwch Dogfennau y Gweinidog Argar yn cwmpasu cymal 91 yn ogystal â chymal 149. Fodd bynnag, o ystyried nad yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gymal 144, ni fydd y cymal hwn yn cael ei gynnwys yng ngeiriad y datganiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar eiriad y datganiad, ac mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wneud y datganiad "cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd".

**38.** Ym mharagraff 33 a 36 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"...ar sail y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU am y defnydd posibl o'r pwerau, rydym yn derbyn bod y diwygiadau canlyniadol a allai godi o Gymal 144 yn fân risg gyfansoddiadol sy'n dderbyniol."*

(...)

---

<sup>22</sup> Gweler hefyd lythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 17 i 19

---



*Ar y sail bod y datganiad yn cael ei wneud, ac yng ngoleuni'r holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU, rwyf o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn dderbyniol." [Ychwanegwyd y pwyslais]*

## **Cymalau 122 i 125**

**39.** Mae cymalau 122 i 125 yn gymalau newydd sydd wedi'u hychwanegu at y Bil sy'n ymwneud â phrofion gwryfyddod. Mae'r cymalau hyn yn gwneud cynnal profion gwryfyddod, yn ogystal â chynnig gwneud profion o'r fath neu helpu neu annog person i'w cyflawni, yn drosedd.

**40.** Mae paragraffau 40 i 45 ym Memorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion ynghylch cymalau 122 i 125 a safbwynt Llywodraeth Cymru.

**41.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Rydym wedi cytuno bod y ddarpariaeth hon yn ymestyn i Gymru, gan y byddai peidio â gwneud hynny yn golygu risg bod Cymru yn cael ei gadael ar ôl ar y mater pwysig hwn. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw a byddai hyn yn golygu bod gan fenywod a merched yng Nghymru lai o amddiffyniadau na'u cymheiriaid yn Lloegr. (...)*

*Cefnogaf y gwelliant hwn gan ei fod wedi'i ymestyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru."*<sup>24</sup>

## **Cymal 135**

**42.** Mae cymal 135 hefyd yn gymal newydd a ychwanegwyd at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ac mae'n ymwneud ag ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol.

**43.** Mae paragraffau 46 i 54 ym Memorandwm Rhif 2 yn rhoi manylion ynghylch cymal 135 a safbwynt Llywodraeth Cymru.

**44.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod cymal 135 yn diwygio adran 88 o *Ddeddf y GIG (Cymru) 2006*, gan greu esemptiad lle nad oes angen ad-dalu contractwyr fferyllol am gynhyrchion meddyginiaethol a ddefnyddir ar gyfer brechlynnau ac imiwneiddio neu ar gyfer

---

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 43 a 45

atal a thrin clefydau a allai droi'n bandemig, lle mae'r cynhyrchion hynny wedi'u caffael yn ganolog.<sup>25</sup>

**45.** Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi hefyd fod gwelliannau canlyniadol i gymal 153 (cychwyn) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddod â'r diwygiadau i Ddeddf y GIG 2006 i rym ac i wneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â dod â'r diwygiadau hynny i rym. Ni fydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd.<sup>26</sup>

**46.** Ym mharagraffau 52 a 54 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Rwyf wedi cytuno bod y gwelliannau hyn yn y Bil yn cael eu hymestyn i Gymru oherwydd, er bod y gwelliant yn ymwneud â deddfwriaeth Cymru, mae swyddogion o'r farn ei bod yn ddoeth ac yn amserol cytuno i Lywodraeth y DU wneud y gwelliannau hyn drwy'r Bil, o ystyried bod y Bil eisoes yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â meddyginiaethau a materion datganoledig, ac mae angen sicrhau nad yw deddfwriaeth Cymru yn atal y cyflenwad heb ad-daliad. Mae'r pwerau i gychwyn y darpariaethau sy'n gymwys yng Nghymru yn galluogi cychwyn y diwygiadau hyn yn unol â'n hamserlenni ein hunain. (...)*

*Cefnogaf y gwelliannau hyn gan eu bod wedi'u hymestyn i Gymru ar ein cais."*

### **Cymal 136 (cymal 120 gynt)**

**47.** Mae cymal 136 (cymal 120 gynt) yn diwygio *Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019* (HEEASA) i alluogi Llywodraeth y DU i weithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol gyda gwledydd, tiriogaethau a sefydliadau rhyngwladol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir. Bydd cymal 136 hefyd yn newid enw HEEASA i *Ddeddf Gofal Iechyd (Cytundebau Rhyngwladol) 2019*.

**48.** Mae cymal 136 yn ehangu cwmpas y pwerau presennol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â gofal iechyd cyfatebol, drwy ddileu'r cyfyngiadau tiriogaethol hyn. Mae'n ehangu'r ardal ddaearyddol lle gellir defnyddio'r pwerau dros dro presennol sydd ar hyn o bryd yn galluogi Llywodraeth y DU i awdurdodi taliadau yng ngwledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir am bum mlynedd ar ôl ymadael â'r UE, ac mae'n gwneud y pwerau

---

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 46

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 47

---

hynny'n rhai parhaol. Cafodd y trefniant hwn ei sefydlu yn seiliedig ar yr angen am gyflymder a hyblygrwydd wrth i'r DU ymadael â'r UE.

**49.** Mae paragraffau 26 i 32 ym Memorandwm Rhif 2, a pharagraffau 14 a 17 ym Memorandwm Rhif 3, yn darparu manylion ynghylch gwelliannau i gymal 136, trafodaethau rhynglywodraethol pellach, a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.<sup>27</sup>

**50.** Ym Memorandwm Rhif 2, cadarnhaodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru ddau bryder ynghylch y cymal hwn. Yn gyntaf, ei fod yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi a/neu ddirprwyo swyddogaethau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wrth wneud rheoliadau a fyddai'n dod â chytundebau gofal iechyd i rym. Yn ail, na fyddai Llywodraeth y DU ond yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar reoliadau drafft sy'n dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym.

**51.** O ran y pryder cyntaf, ym mharagraff 28 o Femorandwm Rhif 2, dywedodd y Gweinidog fod y Bil wedi'i wella fel bod y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol", y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi neu ddirprwyo swyddogaethau iddo wrth wneud rheoliadau ynghylch cytundebau gofal iechyd rhyngwladol o dan yr HEEASA, yn eithrio Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru. Mae Memorandwm Rhif 2 hefyd yn nodi bod Byrddau Iechyd Lleol Cymru wedi'u dwyn i gwmpas pŵer gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau bod swyddogaethau presennol a roddwyd iddynt eisoes ynghylch ceisiadau gofal iechyd arfaethedig yn parhau.<sup>28</sup>

**52.** Mewn perthynas ag ail bryder y Gweinidog ynghylch cymal 136, mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod gwelliant y cytunwyd arno yn y Cyfnod Adrodd wedi diwygio HEEASA i roi pŵer i Weinidogion Cymru i'w galluogi i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig at ddiben gweithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol, sy'n cynnwys y pŵer i ddirprwyo swyddogaethau, a/neu roi swyddogaethau, i bob awdurdod datganoledig yng Nghymru. Byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd.<sup>29</sup>

**53.** Ym mharagraffau 30 i 32 o Femorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Os bydd Gweinidogion Cymru yn methu ag arfer y pŵer hwn i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi'r swyddogaethau hynny, fel y*

---

<sup>27</sup> Gweler hefyd y llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2020

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 28

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 30

---

*nodir yn y paragraff blaenorol. Rwyf o'r farn bod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru am yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd yn deddfu mewn perthynas â meysydd datganoledig.*

*Yr wyf yn ymwybodol nad yw gallu Gweinidogion Cymru i gael y pŵer i osod swyddogaeth gofal iechyd gyfatebol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru yn dileu'r gallu i Lywodraeth y DU ymrwymo i gytundebau gofal iechyd cyfatebol a allai arwain at bwysau ychwanegol ar GIG Cymru. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod y gwelliannau'n newid sylweddol o safbwynt y Bil fel y'i cyflwynwyd ac*

*ynghyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddatblygu cytundebau gofal iechyd cyfatebol newydd a diwygiedig – y byddaf yn eu hanfon ymlaen at y Pwyllgor maes o law -yn diogelu'r setliad datganoli yn ddigonol.*

*O ganlyniad, gallaf nawr gefnogi'r cymal hwn yn y Bil."*

## **Cymal 142 (cymal 123 gynt)**

**54.** Mae cymal 142 (cymal 123 gynt) yn gwneud nifer o ddiwygiadau i *Ddeddf Iechyd 1999* (Deddf 1999) yn ymwneud â rheoleiddio proffesiynau iechyd. Fel yr amlinellwyd ym Memorandwm Rhif 2, er bod rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn fater a gadwyd yn ôl, mae rheoleiddio personau nad ydynt yn weithwyr proffesiynol ond sy'n grwpiau o weithwyr sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol unigolion yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Byddai'r cymal yn y Bil fel y'i cyflwynwyd wedi ymestyn pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i reoleiddio'r grwpiau ychwanegol hyn o weithwyr.

**55.** Mae paragraffau 33 i 35 ym Memorandwm Rhif 2 yn darparu manylion ynghylch gwelliannau i gymal 142 a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.<sup>30</sup>

**56.** Ym mharagraff 34 o Memorandwm Rhif 2 mae'r Gweinidog yn nodi bod gwelliant i'r cymal yn golygu y bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru bellach cyn y gellir gwneud Gorchymyn yn y Cyngor o dan adran 60 o *Ddeddf 1999* sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Ychwanega'r Gweinidog:

---

<sup>30</sup> Gweler hefyd y Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

---

*"Rwy'n fodlon bod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon ac o ganlyniad gallaf nawr gefnogi'r cymal hwn yn y Bil."*<sup>31</sup>

## **Cymal 143**

- 57.** Mae cymal 143 yn ymwneud ag archwilwyr meddygol.
- 58.** Mae paragraffau 36 i 39 ym Memorandwm Rhif 2 yn darparu manylion ynghylch gwelliannau i gymal 143 a newidiadau cyfatebol i safbwynt Llywodraeth Cymru.
- 59.** Mae gwelliant i gymal 143, y cytunwyd arno yn y Cyfnod Adrodd, yn mewnosod adran 18B newydd yn *Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009* (Deddf 2009) yng Nghymru a Lloegr, sy'n nodi pŵer i gyrff y GIG yng Nghymru benodi archwilwyr meddygol. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi y bydd dyletswydd hefyd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod digon o archwilwyr meddygol yn cael eu penodi yn y system gofal iechyd yng Nghymru, bod digon o arian ac adnoddau ar gael i archwilwyr meddygol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau craffu i nodi ac atal ymarfer gwael, ac i sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei fonitro.<sup>32</sup>
- 60.** Ym Memorandwm Rhif 3, nododd y Gweinidog:

*"Gwnaed y gwelliant hwn ar ein cais i alluogi penodi archwilwyr meddygol gan amrywiaeth o gyrff GIG Cymru yn hytrach na dim ond Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (fel y nodir yn narpariaethau presennol Deddf 2009). Bydd hyn yn galluogi mwy o gydweithio ar draws cyrff GIG Cymru i sicrhau bod y cynllun archwilwyr meddygol yn cael ei gyflwyno'n effeithiol ac yn sicrhau bod darpariaethau'n cyd-fynd yn fras â'r sefyllfa yn Lloegr.*

*Er bod pwnc Rhan 1 o Ddeddf 2009, sef ble y caiff y ddarpariaeth hon ei mewnosod, yn cael ei chadwyn ôl gan baragraff 167 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae angen cydsyniad er hynny oherwydd bod y gwelliant yn gosod swyddogaeth a gadwyd yn ôl ar gyrff GIG Cymru ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru."*<sup>33</sup>

---

<sup>31</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 35

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 36

<sup>33</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 37 a 38

---

## **Cymal newydd – Gwneud Hymenoplasti'n Drosedd**

**61.** Mae paragraffau 38 i 43 ym Memorandwm Rhif 3 yn darparu manylion ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ynghylch gwneud hymenoplasti'n drosedd<sup>34</sup>, a safbwynt Llywodraeth Cymru.

**62.** Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud hymenoplasti, yn ogystal â chynnig cyflawni hymenoplasti neu helpu ac annog person i gyflawni hymenoplasti, yn drosedd.

**63.** Ym mharagraffau 41 a 43 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Rydym wedi cytuno bod y ddarpariaeth hon yn cael ei hestyn i Gymru ac y bydd yn gymwys yng Nghymru, oherwydd y byddai peidio â gwneud hynny yn golygu y byddai perygl i Gymru gael ei gadael ar ôl ar y mater pwysig hwn. Mae'n Rhaglen Lywodraethu yn ymrwmo i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw; pe na bai'r troseddau hyn yn cael eu hestyn i Gymru, byddai'n golygu na fyddai menywod a merched yng Nghymru yn cael eu diogelu i'r un graddau â'u cymheiriaid yn Lloegr. (...)*

*Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd ei fod wedi cael ei estyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru."*

## **Cymal newydd – Adrodd gorfodol**

**64.** Mae paragraffau 44 i 50 ym Memorandwm Rhif 3 yn darparu manylion ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr masnachol cynhyrchion gofal iechyd (neu bersonau sy'n gysylltiedig â hynny) gyhoeddi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill y maent yn eu rhoi i ddarparwyr gofal iechyd, neu ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w chyhoeddi. Mae'r paragraffau hyn hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru.

**65.** Ym mharagraff 46 i 50 o Femorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig bod y polisi o gofnodi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill yn gymwys ledled y DU. (...)*

---

<sup>34</sup> Mae Hymenoplasti, a elwir hefyd yn 'atgyweirio'r hymen', yn ymyriad llawfeddygol i ailgreu'r hymen. Mae hymenoplasti yn fath o Lawdriniaeth Gosmetig ar Organau Rhywiol Benywod.

---

*Ar ôl trafodaethau gyda'r Llywodraethau Datganoledig, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud darpariaeth mewn Rheoliadau a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*

*Os na fydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad, mae'r gwelliant hefyd yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy gyfrwng rheoliadau, wneud darpariaeth wahanol ar gyfer rhannau gwahanol o'r DU yn y maes hwn, a allai ganiatáu ar gyfer trefniadau i eithrio gweithgynhyrchwyr yng Nghymru rhag adrodd os bydd angen.*

*Rwy'n cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd ei fod wedi cael ei estyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru."*

## **Diweddariad ar safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ers cyhoeddi'r Memorandwm**

---

**66.** Ym mis Rhagfyr 2021, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2, roedd y rhan fwyaf o bryderon Llywodraeth Cymru wedi cael eu datrys gan welliannau a wnaed i'r Bil yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.<sup>35</sup>

**67.** Ym mharagraff 61 o Femorandwm Rhif 2, nododd y Gweinidog:

*"... hyd nes y caiff y pryderon ynghylch Cyrff Hyd Braich a'r pwerau i wneud diwygiadau canlyniadol eu datrys, ni allaf argymhell cydsyniad i'r holl gymalau yn y Bil sy'n ymwneud â meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd."*

**68.** Ym Memorandwm Rhif 3, a osodwyd gerbron y Senedd ar 28 Ionawr 2022, dywed y Gweinidog:

*"... rydym wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar y meysydd a oedd yn dal i beri pryder inni, sef Trosglwyddo Swyddogaethau Cyrff Hyd Braich a Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd. (...)*

*Rwy'n croesawu'r gwelliannau y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud i'r Bil er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd a oedd dal yn destun pryder i Lywodraeth Cymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r gwelliannau ychwanegol ar*

---

<sup>35</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 60

*Wneud Hymenoplasti'n Drosedd ac ar Adrodd Gorfodol sydd, ar ôl inni wneud cais i'r perwyl hwnnw, yn cael eu hestyn i Gymru.*

*Ar yr amod Tŷ'r Arglwyddi yn pasio'r gwelliannau a gyflwynwyd, a bod y Datganiad gerbron y Blwch Anfon yn cael ei wneud, gallaf argymhell cydsyniad i'r holl gymalau yn y Bil sy'n ymdrin â meysydd o fewn cymhwysedd datganoledig fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd."<sup>36</sup>*

---

<sup>36</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 51, 55 a 56

---



## 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**69.** Trafodwyd Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022<sup>37</sup>, a Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror 2022.<sup>38</sup> Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 7 Chwefror hefyd.

### Ein barn ni

#### Sylwadau cyffredinol

---

**70.** Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom dynnu sylw at bryderon ynghylch prydlondeb gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru gerbron y Senedd a sut mae oedi wrth osod memoranda o'r fath yn rhoi pwyllgorau'r Senedd dan anfantais wrth iddynt geisio craffu ar faterion sy'n gynyddol gymhleth.

**71.** Mae gweithredu cyflym y Gweinidog i osod Memorandwm Rhif 3 gerbron y Senedd ychydig ddyddiau'n unig ar ôl i welliannau perthnasol gael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, aeth bron i fis heibio rhwng cyflwyno gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Gweinidog yn gosod Memorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd.

**72.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn esbonio mai cymhlethdod y gwelliannau, a oedd yn gofyn am ddadansoddiad o'u heffaith lawn, oedd wrth wraidd yr oedi.<sup>39</sup> Er ein bod yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog bod trafodaethau'n mynd rhagddynt hefyd gyda Llywodraeth y DU ar faterion pellach sydd heb eu datrys, o ystyried bod nifer o'r gwelliannau hyn wedi'u cyflwyno ar gais y Gweinidog, byddai eu heffaith lawn wedi bod yn hysbys ar y pwynt hwnnw.

**73.** Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sydd ynghlwm wrth baratoi memoranda cydsyniad deddfwriaethol. Serch hynny, rydym yn atgoffa Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig bod y Senedd yn cael memoranda cydsyniad deddfwriaethol cywir ac amserol, yn anad dim oherwydd nad yw'r Senedd, yn y lle cyntaf, yn cael y cyfle i graffu'n llawn ar y ddeddfwriaeth sylfaenol y mae'r memoranda'n ymwneud â hi.

**74.** Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 2 o ran ei rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil. Trafodir y materion hyn isod wrth inni ystyried cymalau penodol yn y Bil.

---

<sup>37</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 10 Ionawr 2022

<sup>38</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#), 7 Chwefror 2022

<sup>39</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 3

---

## **Cymal 87 (cymal 85 gynt)**

---

**75.** Roedd paragraffau 28 i 34 ac argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymal 87 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 85 yn yr adroddiad hwnnw) sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau.

**76.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 ynghylch gwelliannau a wnaed i gymal 87, gan gynnwys y gwelliannau sydd bellach yn golygu yr ymgynghorir â Gweinidogion Cymru ar unrhyw reoliadau neu gyfarwyddydau a wneir o dan y cymal sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau sy'n berthnasol i Gymru.

**77.** Nodwn ymhellach ymateb y Gweinidog i argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf, a safbwynt diweddaraf y Gweinidog y bydd yn awr yn cefnogi cynnwys y cymal hwn yn y Bil.

**78.** Rydym hefyd yn nodi y bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau, nad yw wedi'i ddrafftio eto gan Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod datganiad y Gweinidog ei bod wedi "egluro wrth Lywodraeth y DU fod angen llunio'r Memorandwm hwn cyn gynted â phosibl, a'r nod yw y bydd yn ei le cyn i'r darpariaethau ddod i rym".

**Casgliad 1.** Dylid cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau a'i roi ar waith cyn i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (os ac unwaith y cânt eu deddfu) ddod i rym.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, cyn neu yn ystod y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Lywodraethau Cymru a'r DU i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau, a chadarnhau a fydd ar waith cyn i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (os ac unwaith y cânt eu deddfu) ddod i rym.

## **Cymalau 88 i 94 (cymalau 86 i 92 gynt)**

---

**79.** Roedd paragraffau 35 i 46 ac argymhellion 2 a 3 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymalau 88 i 94 o'r Bil (y cyfeirir atynt fel cymalau 86 i 92 yn yr adroddiad hwnnw) sy'n ymwneud â throsglwyddo swyddogaethau rhwng cyrff hyd braich perthnasol.

**80.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn dweud nad oeddem yn glir pam yr oedd y Gweinidog yn fodlon ar y sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch cymal 89 yn hytrach nag ymrwymiad deddfwriaethol ar wyneb y Bil. Dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'i phryderon ynghylch cymal 87 fel na all yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau yn y cymal hwnnw i drosglwyddo a/neu ddirprwyo swyddogaethau mewn perthynas ag

---

Awdurdodau Iechyd Arbennig lle cafodd y swyddogaethau hynny eu cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

**81.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 ynghylch gwelliannau a wnaed (neu a gynigiwyd) i gymalau 88 i 94 o'r Bil, ac ymateb y Gweinidog i argymhellion 2 a 3 yn ein hadroddiad cyntaf. Rydym hefyd yn cydnabod safbwynt diweddaraf y Gweinidog y bydd hi'n awr yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.

**82.** Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliant (gwelliant 231C) sy'n darparu ar gyfer gofyniad cydsyniad statudol, lle mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau o dan gymalau 89 neu 90 lle mae'r rheoliadau hynny'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i gynnwys yn Neddf y Senedd (ac nad yw ond yn ddigwyddiadol, neu'n ganlyniadol, i ddarpariaeth a fyddai y tu hwnt i'r cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw) neu sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru (h.y. yn addasu eu cymhwysedd gweithredol).

**83.** Rydym yn cydnabod hefyd ddatganiad y Gweinidog na fydd angen Memorandwm Cydddealltwriaeth ynghylch cyrff hyd braich mwyach os cytunir ar welliant 231C.

**84.** Rydym yn nodi ymhellach fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau sy'n dileu Gweinidogion Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru oddi ar y rhestr o "bersonau priodol" yng nghymal 92, ac mae'r Gweinidog o'r farn bod y gwelliant hwn wedi mynd i'r afael yn llawn â phryderon Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

**85.** Er ein bod hefyd yn nodi esboniad y Gweinidog bod ei phryderon ynghylch y pŵer a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 91 i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth yn ganlyniadol ar gymalau 88 neu 90 bellach wedi cael sylw mewn trafodaethau rhynglywodraethol ynghylch cymalau 91, 144 a 149, nid ydym yn fodlon ar y safbwynt ac mae ein pryderon wedi'u hamlinellu'n fanylach isod.

### **Cymalau 91, 144 a 149 (cymalau 89, 125 a 130 gynt)**

---

**86.** Mae cymalau 91, 144 a 149 i gyd yn cynnwys pwerau Harri'r Wythfed.

**87.** Roedd paragraffau 78 i 85 ac argymhelliad 7 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymal 144 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 125 yn yr adroddiad hwnnw). Roedd paragraffau 86 i 90 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymal 149 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 130 yn yr adroddiad hwnnw).

**88.** Roedd paragraffau 91 i 94, casgliad 4 ac argymhelliad 8 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chynnwys pwerau Harri'r Wythfed i wneud rheoliadau yn y Bil a fyddai'n caniatáu i'r

---

Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor ddiwygio Deddfau a Mesurau'r Senedd yn ogystal â Deddf 2006.

**89.** Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, nid yw Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 144 a 149.

**Casgliad 2.** Nid yw ein barn ar gymalau 144 a 149 wedi newid. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau perthnasol yng nghymalau 144 (ac Atodlen 16) a 149 yn dod o fewn diben datganoledig fel y darperir ar ei gyfer gan Reol Sefydlog 29(i).

**Casgliad 3.** Nid yw ein barn ar y darpariaethau yn y Bil a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor i ddiwygio Deddfau a Mesurau'r Senedd yn ogystal â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi newid. O ran diwygio Deddf 2006, rydym wedi bod yn gyson ein barn, a byddwn yn parhau felly, na ddylai cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gael ei addasu gan reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU.

**90.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a'r safbwyntiau a ddarparwyd gan y Gweinidog ym Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 o ran y trafodaethau rhynglywodraethol sydd wedi parhau ynghylch y darpariaethau hyn yn y Bil. Rydym hefyd yn nodi ymateb y Gweinidog i argymhellion 7 ac 8 yn ein hadroddiad cyntaf.

**91.** Rydym yn siomedig â'r rhesymeg a ddarparwyd gan y Gweinidog ynghylch pam ei bod bellach yn fodlon â'r cymalau hyn o'r Bil.

**92.** Er ein bod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi gweithio ar fynd i'r afael â'r problemau gyda'r cymalau hyn, mae'r Gweinidog yn ymwybodol nad yw ymrwymadau blwch dogfennau – er eu bod yn arf Llywodraeth – yn rhwymo unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol ac nid ydynt ychwaith yn darparu rôl ar gyfer y ddeddfwrfa.

**93.** Er y gall ymrwymiad o'r fath ymddangos yn gyfaddawd priodol i Weinidogion Cymru, nid ydym yn rhannu'r farn honno. Nid yw'r defnydd o ymrwymadau blwch dogfennau yn cyfateb i ddarpariaeth briodol o fewn Bil Llywodraeth Cymru, ac nid yw'n ddull i'w groesawu.

**94.** Mae'r Gweinidog wedi datgan bod canlyniad y trafodaethau rhwng y Llywodraethau y cytunwyd arno wedi arwain at "risg gyfansoddiadol fach". Mae'r canlyniad hwn, a'r ffaith bod y Gweinidog yn ei dderbyn, yn annerbyniol: ni ddylai elfennau o setliad datganoli Cymru gael eu rhoi yn y fantol oherwydd bod Bil y DU yn cael ei ddefnyddio i ddeddfu mewn maes datganoledig.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, esbonio a meintoli'r risg y mae'n ei disgrifio ym mharagraff 33 o Femorandwm Rhif 3.

**95.** O ran argymhelliad 8 yn ein hadroddiad cyntaf ynghylch y darpariaethau yn y Bil sy'n galluogi Gweinidogion y DU i ddiwygio Deddf 2006 drwy reoliadau, rydym yn siomedig ac yn bryderus nad yw'r Gweinidog wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yn ei llythyr atom dyddiedig 2 Chwefror 2022.

**96.** Er bod ei llythyr yn rhoi sylw i bwerau Harri'r Wythfed bras a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddefnyddio rheoliadau i ddiwygio Deddfau a Mesurau'r Senedd, nid yw'r Gweinidog wedi darparu ymateb i'n hargymhelliad y dylai geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i ddiwygio Deddf 2006.

**Casgliad 4.** Nid yw ein barn wedi newid ar y pwerau yn y Bil a fyddai'n galluogi i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd gael ei addasu drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau ei bod wedi ceisio gwelliant o'r fath a diweddiariad i'r Senedd am y sefyllfa ddiweddaraf.

### **Cymalau 122 i 125**

---

**97.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 ynghylch cymalau newydd a ychwanegwyd at y Bil sy'n ymwneud â phroffion gwryfodod.

**98.** Rydym hefyd yn nodi datganiad y Gweinidog, ac yn tynnu sylw'r Senedd ato, fod ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru wedi'i weithredu ar gais Llywodraeth Cymru ac, felly, bod y Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.

### **Cymalau 135 a 153**

---

**99.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 ynghylch cymal 135 newydd a ychwanegwyd at y Bil sy'n ymwneud ag ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol.

**100.** Rydym hefyd yn nodi datganiad y Gweinidog, ac yn tynnu sylw'r Senedd ato, fod ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru wedi'i weithredu ar gais Llywodraeth Cymru ac, felly, bod y Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.

**101.** Dymunwn hefyd dynnu sylw at dri mater penodol ynglŷn â'r cymal newydd hwn.

**102.** Yn gyntaf, rydym yn nodi ac yn tynnu sylw'r Senedd at y ffaith bod diwygiadau canlyniadol i gymal 153 o ganlyniad i gymal 135 newydd yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau newydd i Weinidogion Cymru i ddod â'r diwygiadau i Ddeddf y GIG 2006 i rym ac i wneud darpariaethau trosiannol mewn cysylltiad â dod â'r diwygiadau hynny i rym. Ni fydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd. Er nad oes gweithdrefn graffu ffurfiol yn gysylltiedig â phwerau cychwyn o'r fath yn aml, o ystyried nad yw Aelodau o'r Senedd wedi cael cyfle i graffu'n ffurfiol ar y ddarpariaeth deddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi pŵer dirprwyedig o'r fath, rydym o'r farn bod hyn yn anfodhaol.

**103.** Yn ail, ac mewn perthynas â'r gwelliannau canlyniadol i gymal 153 o ganlyniad i gymal 135 newydd, nid yw'n glir i ni pam nad yw'r Gweinidog wedi rhestru cymal 153 fel darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd o ystyried y gwelliannau a wnaed iddo sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddod â'r darpariaethau newydd ynghylch ad-daliad i fferyllfeydd cymunedol i rym.

**Casgliad 5.** Credwn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 153 o'r Bil, gan ein bod o'r farn bod y cymal yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, esbonio'n llawn pam nad yw'n ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 153 o'r Bil.

**104.** Yn olaf, defnyddir dewis diddorol o eiriau ym mharagraff 52 o Femorandwm Rhif 2, sef bod "swyddogion o'r farn ei bod yn ddoeth ac yn amserol cytuno i Lywodraeth y DU wneud y gwelliannau hyn drwy'r Bil". Er ein bod yn cydnabod bod swyddogion y Llywodraeth yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru yn ôl yr angen a'r gofyn, Gweinidogion Cymru eu hunain sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol a felly y dylai fod.

### **Cymal 136 (cymal 120 gynt)**

---

**105.** Roedd paragraffau 47 i 72 ac argymhellion 4 a 5 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymal 136 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 120 yn yr adroddiad hwnnw) sy'n ymwneud â gweithredu cytundebau gofal iechyd rhyngwladol.

**106.** Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad y byddai cymal 136 o'r Bil yn:

- yn golygu gwyro oddi wrth y confensiwn cyfansoddiadol o weithredu cytundebau rhyngwladol sy'n gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, ynghyd â'r gwaith craffu sydd ynghlwm wrth hynny;

- yn cynnig cwmpas eang i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud taliadau gofal iechyd ar gyfer gofal iechyd sydd y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol mewn "amgylchiadau eithriadol", nad ydynt wedi'u diffinio yn y Bil, ac rydym yn nodi nad oes cyfyngiadau ar y swm na'r math o ofal iechyd a ariennir;
- yn lleihau rôl gyfyngedig bresennol Senedd y DU wrth graffu ar gytundebau rhyngwladol a'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cyd-fynd â'r cytundebau hynny;
- yn gosod cyfyngiadau ychwanegol ar gyfranogiad y deddfwrfeydd datganoledig yn y broses graffu ar gytundebau rhyngwladol y DU, gan gynnwys y rheini mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

**107.** Nodwn fod gwelliannau wedi'u gwneud i wyneb y Bil a gefnogir gan y Gweinidog. Nodwn hefyd ymateb y Gweinidog i argymhellion 4 a 5 yn ein hadroddiad cyntaf.

**108.** Yn gyntaf, rydym yn cydnabod bod y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus perthnasol" y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi neu ddirprwyo swyddogaethau iddo wrth wneud rheoliadau ynghylch cytundebau gofal iechyd rhyngwladol o dan HEEASA wedi'i ddiwygio fel bod Gweinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru yn cael eu heithrio o'r diffiniad hwnnw. Nodwn hefyd fod diwygiadau eraill bellach yn dod â Byrddau Iechyd Lleol Cymru o dan gwmpas pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau presennol sydd eisoes wedi'u rhoi iddynt ynghylch ceisiadau gofal iechyd arfaethedig yn parhau.

**109.** Yn ail, rydym yn cydnabod bod HEEASA wedi'i ddiwygio i roi pŵer newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i'w galluogi i wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ddirprwyo swyddogaethau a/neu roi swyddogaethau i bob awdurdod datganoledig yng Nghymru. Rydym hefyd yn cydnabod, pe bai Gweinidogion Cymru yn methu ag arfer y pŵer hwn i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd, y gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi'r swyddogaethau hynny.

**Casgliad 6.** Dylai Gweinidogion Cymru wneud unrhyw reoliadau angenrheidiol mewn meysydd datganoledig at ddiben dod â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol i rym. Pan na fyddant yn gwneud hynny, a bod y pŵer i roi swyddogaethau perthnasol i'r Byrddau Iechyd Lleol ynghylch cytundebau gofal iechyd yn cael ei arfer yn lle hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i Weinidogion Cymru roi manylion ac esboniad llawn i'r Senedd cyn i reoliadau o'r fath gael eu gwneud. gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**110.** Nodwn os caiff rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y ddarpariaeth hon, y byddent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd. O ganlyniad i'r gwelliannau hyn i'r Bil, rydym yn cydnabod y bydd y Senedd yn cadw ei allu i gael gweld a chraffu ar reoliadau a wneir mewn perthynas â chytundebau gofal iechyd rhyngwladol, er y bydd y rheoliadau hynny'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. O ystyried bod y cymal hwn gynt yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau o'r fath yn gyfan gwbl i'r Ysgrifennydd Gwladol i roi cytundebau gofal iechyd ar waith i Gymru, na fyddai wedi rhoi'r un cyfle i'r Senedd graffu â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, rydym yn cydnabod bod hon yn sefyllfa well.

**111.** Roedd argymhelliad 5 yn ein hadroddiad cyntaf yn dweud y dylai'r Gweinidog ofyn i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn sy'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' at ddiben y cymal. Rydym yn nodi ymateb y Gweinidog i'n hargymhelliad, ond nid yw'n bodloni ein pryderon yn llawn.

**112.** Roedd llythyr y Gweinidog atom dyddiedig 2 Chwefror yn cynnwys enghreifftiau o'r modd y mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio pwerau o dan HEEASA yn y gorffennol i ariannu triniaeth gofal iechyd nad oedd wedi'i chwmpasu fel arall gan gytundeb cilyddol. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd:

*"Mae'n debygol mai'r amgylchiadau hynny pan fyddai gwrthod ariannu triniaeth gofal iechyd yn arwain at ganlyniadau llym, na ellir eu cyfiawnhau, i'r unigolyn, i'r graddau fel na fyddai gwrthod cais am gyllid yn ymateb cymesur, yw amgylchiadau eithriadol. Mae'n anorfod bod rhaid cydbwysu unrhyw fuddiannau cyhoeddus â buddiannau'r unigolyn dan sylw sy'n gwrthdaro â'i gilydd wrth benderfynu a ellir cyfiawnhau talu am driniaeth drwy amgylchiadau eithriadol. Byddai ceisio diffinio hyn ymhellach mewn deddfwriaeth sylfaenol drwy gyfeirio at faint neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu yn cyfyngu'n ormodol ar allu'r Ysgrifennydd Gwladol i arfer y disgresiwn hwn a byddai'n llesteirio'r gallu i gynorthwyo pobl sy'n preswyllo ym Mhrydain pan fydd arnynt angen fwyaf.*

*Yn fy marn i, felly, nid yw'n briodol cynnwys prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiad eithriadol' o safbwynt faint neu ba fath o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol oherwydd gallai hyn gael effaith andwyol ar ddarparu*



*cymorth pan fo ei angen, neu gallai gyfyngu ar y cymorth y gellid ei ddarparu.*<sup>40</sup>

**113.** O ystyried bod enghreifftiau ar gael i'r llywodraethau o sut y mae pwerau tebyg o'r fath wedi'u defnyddio, nid ydym yn glir pam na ellid nodi ar wyneb y Bil y profion eang a fyddai wedi'u bodloni'n flaenorol er mwyn rhoi cyllid ar waith gyda'r enghreifftiau hynny.

**Casgliad 7.** Rydym yn parhau i fod yn bryderus ynghylch cwmpas eang a diderfyn y pŵer a ddarperir yng nghymal 136 o ran gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud taliadau am ofal iechyd nad ydynt yn rhan o gytundeb gofal iechyd rhyngwladol. Y dull a ffafrir gennym o hyd yw diwygio wyneb y Bil fel y nodir yn argymhelliad 5 yn ein hadroddiad cyntaf.

**Argymhelliad 5.** Yn absenoldeb cyflwyno gwelliannau i wyneb y Bil yn unol ag argymhelliad 5 yn ein hadroddiad cyntaf, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y profion a'r meini prawf eang a fydd yn cael eu defnyddio wrth benderfynu beth yw 'amgylchiad eithriadol' at ddiben cymal 136. Dylai'r Gweinidog fynd ar drywydd y mater hwn yn uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

**114.** Rydym yn nodi barn y Gweinidog bod "y gwelliannau'n newid sylweddol o safbwynt y Bil fel y'i cyflwynwyd ac ynghyd â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth ddatblygu cytundebau gofal iechyd cyfatebol newydd a diwygiedig... y setliad datganoli."

**115.** Roedd argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf yn dweud y dylai'r Gweinidog, cyn y ddatl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â HEEASA i ni ac i'r holl Aelodau o'r Senedd, ac y dylai gadarnhau bod testun y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol yn adlewyrchu cwmpas cyfyngedig, terfynol y Bil fel y'i cytunwyd gan Senedd y DU.

**116.** Dim ond ar 2 Chwefror 2022 y cawsom y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gyfyngu felly ar y potensial i ni allu craffu arno'n llawn ac yn effeithiol cyn y gofynnir i'r Senedd a ddylid rhoi cydsyniad i gymal 136 ai peidio.

**117.** Wrth ymateb i argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf, dywedodd y Gweinidog:

*"Mae pob un o'r pedair gwlad wedi cytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Bydd y Pwyllgor am nodi nad yw'r cysylltiadau ehangach*

---

<sup>40</sup> Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

*mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethiant newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hyd yma, ond maent yn cael eu hystyried. Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau newydd ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol maes o law."*<sup>41</sup>

**118.** Rydym yn cydnabod y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd y cytunwyd arnynt (fel y'u cyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2022<sup>42</sup>).

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog weithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad yn cael ei ddiweddarau cyn gynted â phosibl i adlewyrchu'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd (gan gynnwys prosesau datrys anghydfodau) y cytunwyd arnynt ac y'u cyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2022.

**Argymhelliad 7.** Yn dilyn argymhelliad 6, rhaid i'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd y fersiwn wedi'i diweddarau o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad cyn gynted ag y bydd wedi'i chytuno a'i chwblhau.

**Argymhelliad 8.** Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol anfasnachol, dylai'r Gweinidog ymrwmo i roi gwybod i ni am unrhyw gytundebau rhyngwladol sydd ar droed a fydd yn dod o fewn cylch gorchwyl y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad.

## **Cymal 142 (cymal 123 gynt)**

---

**119.** Roedd paragraffau 73 i 77 ac argymhelliad 6 yn ein hadroddiad cyntaf yn ymdrin â chymal 142 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 123 yn yr adroddiad hwnnw) sy'n ymwneud â rheoleiddio proffesiynau iechyd.

**120.** Nodwn yr wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 ynghylch gwelliannau a wnaed i gymal 142, a bod gwelliannau o'r fath yn golygu y bydd angen cydsyniad Gweinidogion

---

<sup>41</sup> Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 11 Chwefror 2020

<sup>42</sup> Adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol Llywodraeth y DU, 13 Ionawr 2022

---

Cymru yn awr cyn y gellir gwneud Gorchymyn yn y Cyngor o dan adran 60 o Ddeddf 1999 pan fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**121.** Nodwn hefyd fod y Gweinidog bellach yn fodlon bod y gwelliannau wedi mynd i'r afael â'i phryderon a'i bod bellach yn cefnogi cynnwys cymal 142 yn y Bil.

### **Cymal 143**

---

**122.** Nodwn yr wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 ynghylch gwelliannau a wnaed i gymal 143 sy'n ymwneud ag archwilwyr meddygol.

**123.** Rydym hefyd yn nodi datganiad y Gweinidog, ac yn tynnu sylw'r Senedd ato, fod ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru wedi'i weithredu ar gais Llywodraeth Cymru ac, felly, bod y Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymal hwn yn y Bil.

### **Cymal newydd – Gwneud hymenoplasti yn drosedd**

---

**124.** Nodwn yr wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 3 ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil sy'n ymwneud â gwneud hymenoplasti yn drosedd.

**125.** Nodwn hefyd ddatganiad y Gweinidog, ac rydym yn tynnu sylw'r Senedd ato, fod ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru wedi'i weithredu ar gais Llywodraeth Cymru ac, felly, bod y Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.

### **Cymal newydd – Adrodd gorfodol**

---

**126.** Rydym yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 3 ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil sy'n ymwneud â'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr masnachol cynhyrchion gofal iechyd (neu bersonau sy'n gysylltiedig â hynny) gyhoeddi gwybodaeth am daliadau neu fuddion eraill y maent yn eu rhoi i ddarparwyr gofal iechyd, neu ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w chyhoeddi.

**127.** Nodwn hefyd, yn dilyn trafodaethau â'r llywodraethau datganoledig, fod y gwelliannau a gynigir yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y cymalau hyn a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn nodi ymhellach y bydd y gwelliannau yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i fwrw ymlaen â rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer rhannau eraill o'r DU yn y maes hwn pe na bai Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.

**128.** Tynnwn sylw'r Senedd at ddatganiad y Gweinidog fod y darpariaethau hyn wedi'u hestyn i Gymru ar gais Llywodraeth Cymru ac, felly, bod y Gweinidog yn cefnogi cynnwys y cymalau hyn yn y Bil.

### **Sylwadau terfynol**

---

**129.** Fel yr amlygwn uchod, mae llawer o'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cynnwys ar gais Llywodraeth Cymru. At hynny, er ein bod wedi gwneud argymhellion yn yr adroddiad hwn i fynd i'r afael â'n pryderon cyffredinol mewn rhai meysydd, nid ydynt yn cymryd lle gallu Aelodau o'r Senedd i brofi a gwella deddfwriaeth drwy gyflwyno gwelliannau i Filiau Cymru a gyflwynir i'r Senedd. Rydym yn ymwybodol o'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu (ac yr ydym yn ymchwilio iddynt) ond ni ddylent fwrw cysgod dros y risg gyfansoddiadol i'r setliad datganoli sy'n deillio o barhau i ddefnyddio Biliau'r DU mewn meysydd datganoledig i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.